YSGOL BRYNREFAIL

DIWRNOD MENTER BLWYDDYN 10

Ydych chi'n gwybod sut i wneud twr o bapur sydd wedi ei gynllunio a'i wneud yn ddigon cryf i ddal wy heb ei dorri?

Ar ddydd Gwener 14eg Medi 2012 cynhaliwyd 'Diwrnod Menter' i holl ddisgyblion blwyddyn 10 yn neuadd Ysgol Brynrefail. Ac o'r her gyntaf hwnnw gan Selwyn Griffiths, Menter Ifanc, fe fwriodd disgyblion blwyddyn 10 ymlaen i ffurfio cwmnïau, cynllunio, archebu nwyddau, a gwneud cynnyrch.

Yr oedd yr oll yn rhan o waith Bagloriaeth Cymru ac fe drefnwyd y diwrnod llwyddiannus gan Mrs Gweno Evans , Cydlynydd Bagloriaeth Cymru dan 16, yr Ysgol. Ac yn wir fe gynhyrchwyd rhai nwyddau llwyddiannus iawn.